Cyd-gyngor Cymwysterau

TGAU, TAG,
Prif Ddysgu a Phrojectau
(gan gynnwys Project Estynedig)

Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau

- **Gwiriadau Clerigol**
- **Adolygiad o'r marcio gwreiddiol**
- **Adolygiad o'r safoni gwreiddiol**
- **Dychwelyd Sgriptiau**

Gwybodaeth ac arweiniad i ganolfannau ar gyfer arholiadau yn y cyfnod:

Mehefin 2011, Tachwedd 2011 ac Ionawr 2012

Cynhyrchwyd ar ran:

AQA edexcel advancing learning, changing lives OCR RECOGNISING ACHIEVEMENT

City & Guilds CCEA Rewarding Learning CBAC WJEC

Cysylltbwyntiau yn y Cyrff Dyfarnu

Corff dyfarnu	**COFRESTRU, CYFLWYNO A GWYBODAETH AR-LEIN** **DYLID CYFLWYNO CEISIADAU AR-LEIN**	**Rhif Ffôn** **Rhif Ffacs** (dylid ond gwneud ceisiadau ar ffurflen os nad oes modd gwneud cais ar-lein)	**Cyfeiriad Post** (dylid ond gwneud ceisiadau ar ffurflen os nad oes modd gwneud cais ar-lein)
AQA AQA – City & Guilds (Prif Ddysgu a Phrojectau)	e-AQA www.aqa.org.uk Dewiswch y cyswllt e-aqa I gofrestru, ewch ar-lein neu ffoniwch: 0844 209 6614	Ffôn: 0844 209 6614 YAG: Ffacs: 01483 556344 DS: Fax: 0161 455 5485	**AQA** Stag Hill House Guildford Surrey GU2 7XJ Os na all canolfannau gyflwyno cais gan ddefnyddio e-AQA dylent ddefnyddio'r ffurflenni CGC sydd ar gael i'w llwytho i lawr o ffon cof y CGC Gwanwyn 2011.
CCEA	www.ccea.org.uk I gofrestru ewch ar-lein neu cysylltwch â'r *Centre Support Section* ar 028 9026 1200 est 2410 neu 2443 neu e-bostiwch centresupport@ccea.org.uk	Ffôn: 028 9026 1451 Ffacs: 028 9026 1290	**CCEA** Clarendon Dock 29 Clarendon Road Belffast BT1 3BG
City & Guilds	www.cityandguilds.com Am wybodaeth e-bostiwch policy@cityandguilds.com	Ffôn: 020 7294 2772 Ffacs: 020 7294 2416	**City & Guilds** 1 Giltspur Street Llundain EC1A 9DD
Edexcel	Edexcel Online www.edexcelonline.org.uk I gofrestru am Edexcel Online cysylltwch ag Edexcel Online Support ar 0844 576 0024 neu www.edexcel.org.uk/help	Ffôn: TAG: 0844 576 0025 TGAU: 0844 576 0027 Diploma: 0844 576 0028 Arall: 0844 576 0031	Os nad yw canolfannau'n gallu cyflwyno cais gan ddefnyddio Edexcel Online, dylent gysylltu â'r Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid trwy ffonio: TAG: 0844 576 0025 TGAU: 0844 576 0027 Diploma: 0844 576 0028 Arall: 0844 576 0031
OCR	Interchange www.ocr.org.uk I gofrestru ewch i www.ocr.org.uk neu cysylltwch â'r *Customer Contact Centre* yn OCR ar 01223 553998	Ffôn: 01223 553998	Os nad yw canolfannau'n gallu cyflwyno cais trwy Interchange dylent gysylltu â'r *Customer Contact Centre* OCR ar 01223 553998.
CBAC	Gwefan Ddiogel CBAC www.wjecservices.co.uk I gofrestru anfonwch gais ar e-bost at securewebsite@wjec.co.uk gan ddyfynnu rhif y ganolfan, enw'r ganolfan a'r enw cyswllt.	Ffôn: 029 2026 5104 Ffacs: 01443 845643	Gwasanaethau Ar ôl y Canlyniadau **CBAC** Uned A16/17 Ffordd Gwaelod Y Garth Stad Ddiwydiannol Trefforest Pontypridd Rhondda Cynon Taf CF37 5XF

Cynnwys Tudalen

ADRAN UN: Cyffredinol

1. Rhagarweiniad 1

2. Dyddiadau Allweddol a Therfynau Amser Cyfresi Mehefin 2011 ac Ionawr 2012 2

3. Ffïoedd 4

4. Ymgeiswyr Preifat 4

5. Pa wasanaeth ar ôl y canlyniadau sydd ei angen arnaf? 5

ADRAN DAU: YAG ac Apeliadau

6. Ymholiadau am Ganlyniadau (YAG)

6.1 Cyfrifoldebau'r ganolfan 6

6.2 Cydsyniad yr Ymgeisydd 6

6.3 Gwasanaethau Ymholiad am Ganlyniadau 6

6.4 Cyflwyno Ceisiadau 9

6.5 Cydnabyddiaeth 9

6.6 Canlyniad Ymholiadau 9

6.7 Os oes gan ganolfan bryderon am farcio carfan yn y ganolfan 10

6.8 Marciau'r Raddfa Marciau Unffurf (UMS) 11

6.9 Ymgeiswyr yn camymddwyn 11

7. Apeliadau 12

ADRAN TRI: Dychwelyd Sgriptiau

8. Dychwelyd Sgriptiau (DS)

8.1 Trefniadau dychwelyd sgriptiau arholiad wedi'u marcio 14

8.2 Amodau'r gwasanaeth Dychwelyd Sgriptiau (DS) 14

8.3 Hysbysu staff ac ymgeiswyr o'r gwasanaeth DS 14

8.4 Gwneud cais am gopïau blaenoriaethol o sgriptiau i gefnogi Ymholiadau am Ganlyniadau 15

8.5 Gwneud cais am sgriptiau i gefnogi addysgu a dysgu 15

8.6 Cynlluniau marcio 15

8.7 Storio sgriptiau 15

8.8 Ymyrryd â sgriptiau gwreiddiol (os ydynt wedi'u darparu) 16

8.9 Gwaredu sgriptiau 16

Atodiad A – Ymholiadau am Ganlyniadau – Ffurflen Cydsyniad yr Ymgeisydd a Gwybodaeth i Ymgeiswyr 17

Atodiad B – Ffurflen Cydsyniad yr Ymgeisydd i ddefnyddio sgriptiau arholiad 18

Atodiad C – Canllawiau – gwasanaeth Dychwelyd Sgriptiau 19

Atodiad Ch – Cwestiynau Cyffredin 22

ADRAN UN: Cyffredinol

1. Rhagarweiniad

1.1 Ceir tair adran i'r llyfryn hwn:

- **Adran Un** sy'n rhoi golwg gyffredinol ar broses y gwasanaethau ar ôl y canlyniadau;
- **Adran Dau** sy'n cyfeirio at Ymholiadau am Ganlyniadau (gwiriadau clerigol, adolygiad o'r marcio ac adolygiad o'r safoni) ac Apeliadau;
- **Adran Tri** sy'n cyfeirio at Ddychwelyd Sgriptiau.

1.2 Yn ogystal â'r llyfryn hwn, bydd y cyrff dyfarnu'n cyhoeddi eu canllawiau gweinyddol eu hunain ar wasanaethau ar ôl y canlyniadau. **Dylech ddarllen y llyfryn hwn ynghyd ag unrhyw wybodaeth a gyhoeddir gan y cyrff dyfarnu.**

1.3 **Nid yw'r** llyfryn hwn yn cyfeirio at y gwasanaethau canlyniadau coll ac anghyflawn (MIR) sy'n delio â phryderon am y mathau canlynol o ganlyniadau:

- **'Dim canlyniad' (X)**
- **'Absenoldeb Rhannol' (e.e. D#)**
- **'Canlyniadau Coll'**
- **'Yn aros am ganlyniad'(Q).**

I ymholi am ganlyniad o'r fath, dylai canolfannau lenwi'r ddogfennaeth berthnasol a gyflenwir gan y corff dyfarnu unigol.

Bydd y corff dyfarnu'n ymchwilio i'r ymholiad ac yn cyflwyno adroddiad amdano yn ddi-dâl. Gellir datrys y rhan fwyaf o'r ymholiadau ar y diwrnod canlyniadau penodol trwy wiriadau prosesu.

1.4 Gall ymgeiswyr TGAU a TAG sydd wedi ennill digon o ganlyniadau uned i gael dyfarniad ond heb hawlio ardystiad wneud hynny'n adolygol trwy eu canolfan. Rhaid i'r ganolfan gyflwyno'r cais i'r corff dyfarnu perthnasol cyn y terfyn amser a gyhoeddir ar gyfer y gyfres dan sylw. Bydd pob corff dyfarnu'n cyhoeddi ei ganllawiau gweinyddol ei hun, a fydd yn rhoi manylion y dull o gyflwyno ceisiadau ac unrhyw dâl am y gwasanaeth hwn.

1.5 Mae darpariaeth gwasanaethau ymholiadau am ganlyniadau a gwasanaethau dychwelyd sgriptiau manylebau TGAU, TAG a Phrif Ddysgu'n cael ei llywodraethu gan Adrannau 9 a 10 y *Cod Ymarfer* TGAU, TAG, Prif Ddysgu a Phroject, dyddiedig Ebrill 2011, y gellir edrych arno'n llawn ar y gwefannau canlynol:

- Gwefan Ofqual – www.ofqual.gov.uk
- Gwefan APADGOS – www.wales.gov.uk
- Gwefan CCEA – www.ccea.org.uk

1.6 Cyfeirir trwy'r ddogfen hon at lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, h.y. cymwysterau Lefel 1, 2 a 3. Er mwyn cynorthwyo swyddogion arholiadau, yn enwedig rheiny a allai fod yn gymharol newydd i'r swydd, mae'r wybodaeth ganlynol yn egluro'r cymwysterau a drafodir yn y llyfryn hwn.

Lefel	**Cymhwyster**
Lefel 1	Diploma Sylfaen Project Sylfaen Cymwysterau TGAU (Graddau D-G)
Lefel 2	Diploma Uwch Project Uwch Cymwysterau TGAU (Graddau A*-C)
Lefel 3	Diploma Uwch Diploma Dilyniant Cymwysterau Project Estynedig Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch

2. Dyddiadau Allweddol a Therfynau Amser

2.1 **Er mwyn i'r cyrff dyfarnu allu darparu gwasanaeth effeithlon, mae'n hollbwysig bod canolfannau'n cwrdd â'r terfynau amser a'r dyddiadau allweddol canlynol**.
Sylwer bod **rhaid** cyflwyno ceisiadau i'r cyrff dyfarnu erbyn y dyddiad cau perthnasol.

Rhaid i ganolfannau gyflwyno ceisiadau ar-lein trwy safleoedd allrwyd y cyrff dyfarnu.

2.2 **Dyddiadau Allweddol a Therfynau Amser Cyfres Mehefin 2011**

DYDDIAD ALLWEDDOL	YMHOLIADAU AM GANLYNIADAU (YAG)	DYCHWELYD SGRIPTIAU (DS)
18 Awst	• Cyhoeddi canlyniadau TAG • Cyhoeddi canlyniadau Prif Ddysgu Lefel 3 • Cyhoeddi canlyniadau'r Project Estynedig • Gellir gofyn am YAG yn awr ar gyfer cymwysterau Lefel 3	• Ar gyfer cymwysterau Lefel 3 gall canolfannau ofyn am DS (i gefnogi addysgu a dysgu) neu DS (copïau blaenoriaethol o sgriptiau i gefnogi ymholiadau am ganlyniadau) • **(Nid yw llungopïau blaenoriaethol o sgriptiau ar gael os gofynnir am YAG Gwasanaeth 2 Blaenoriaethol).**
25 Awst	• Cyhoeddi canlyniadau TGAU • Cyhoeddi canlyniadau Prif Ddysgu Lefel 1 a Lefel 2 • Cyhoeddi canlyniadau Project Sylfaen ac Uwch • Gellir gofyn am YAG yn awr	• Ar gyfer cymwysterau Lefelau 1 a 2 gall canolfannau ofyn am DS (i gefnogi addysgu a dysgu)
26 Awst	• **DYDDIAD CAU** am YAG Gwasanaeth 2 Blaenoriaethol (cymwysterau Lefel 3 yn unig). • Dyddiad olaf i gyrff dyfarnu dderbyn ceisiadau	• **DYDDIAD CAU** i gyrff dyfarnu dderbyn ceisiadau am gopïau blaenoriaethol o sgriptiau i gefnogi ymholiadau am ganlyniadau. (Cymwysterau Lefel 3 yn unig)
10 Medi		• Y dyddiad erbyn pryd y dylai canolfannau dderbyn copïau blaenoriaethol o sgriptiau i gefnogi ymholiadau am ganlyniadau (Cymwysterau Lefel 3 yn unig)
20 Medi	• **DYDDIAD CAU YAG:** Y dyddiad olaf i gyrff dyfarnu dderbyn ceisiadau • **DYDDIAD CAU** i gyrff dyfarnu dderbyn ceisiadau am ddyfarniadau pwnc hwyr (arholiadau TGAU a TAG).	
21 Medi		• Y dyddiad cynharaf* y dychwelir sgriptiau i gefnogi addysgu a dysgu i ganolfannau
4 Hydref		• **DYDDIAD CAU** i gyrff dyfarnu dderbyn ceisiadau am sgriptiau i gefnogi addysgu a dysgu
16 Tachwedd		• Y dyddiad* erbyn pryd y dylai canolfannau dderbyn sgriptiau
23 Tachwedd		• Y dyddiad cynharaf i ganolfannau gael gwared ar sgriptiau diangen yn gyfrinachol

* Gellir gohirio dychwelyd sgriptiau os yw canolfan wedi gofyn am YAG yn yr un uned/gydran.

Mewn achosion eithriadol, lle y cyhoeddwyd canlyniadau ar ôl y dyddiad cyhoeddi arferol, estynnir dyddiad cau cyflwyno ceisiadau am yr un cyfnod â'r oedi.

2.3 **Dyddiadau Allweddol a Therfynau Amser Cyfres Ionawr 2012**

DYDDIAD ALLWEDDOL	YMHOLIADAU AM GANLYNIADAU (YAG)	DYCHWELYD SGRIPTIAU (DS)
8 Mawrth	• Dosbarthu canlyniadau • Gellir gofyn am YAG yn awr • **(Nid yw YAG Gwasanaeth 2 Blaenoriaethol ar gael ym mis Ionawr)**	• Gall canolfannau ofyn am DS (i gefnogi addysgu a dysgu) neu • Ar gyfer cymwysterau Lefel 3 gall canolfannau ofyn am DS (copïau blaenoriaethol o sgriptiau i gefnogi ymholiadau am ganlyniadau)
16 Mawrth		• **DYDDIAD CAU** i gyrff dyfarnu dderbyn ceisiadau am gopïau blaenoriaethol i gefnogi ymholiadau am ganlyniadau (Cymwysterau Lefel 3 yn unig)
26 Mawrth		• Y dyddiad erbyn pryd y dylai canolfannau dderbyn copïau blaenoriaethol o sgriptiau i gefnogi ymholiadau am ganlyniadau (Cymwysterau Lefel 3 yn unig)
17 Ebrill	• **DYDDIAD CAU YAG:** Y dyddiad olaf i gyrff dyfarnu dderbyn ceisiadau. • **DYDDIAD CAU** i gyrff dyfarnu dderbyn ceisiadau am ddyfarniadau pwnc hwyr (arholiadau TAG)	
18 Ebrill		• Y dyddiad cynharaf y dychwelir sgriptiau i gefnogi addysgu a dysgu i ganolfannau §
28 Ebrill		• **DYDDIAD CAU** i gyrff dyfarnu dderbyn ceisiadau am sgriptiau i gefnogi addysgu a dysgu
8 Mehefin		• Y dyddiad erbyn pryd y dylai canolfannau dderbyn sgriptiau i gefnogi addysgu a dysgu§
13 Mehefin		• Y dyddiad cynharaf i ganolfannau gael gwared ar sgriptiau diangen yn gyfrinachol

§ Gellir oedi cyn dychwelyd sgriptiau os yw canolfan wedi gofyn am YAG yn yr un uned/gydran.

Mewn achosion eithriadol, lle y cyhoeddwyd canlyniadau ar ôl y dyddiad cyhoeddi arferol, estynnir dyddiad cau cyflwyno ceisiadau am yr un cyfnod â'r oedi.

2.4 Ar gyfer pob arholiad arall dyddiadau cau terfynol ceisiadau YAG yw **4 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r canlyniadau.**

2.5 **Ni dderbynnir ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau perthnasol.** Am ragor o fanylion, gweler **Adran 6.5 – Cydnabyddiaeth, tudalen 9**.

3. Ffïoedd

3.1 Mae'r ffïoedd am wasanaethau ar ôl y canlyniadau (Dychwelyd Sgriptiau ac Ymholiadau am Ganlyniadau) yn cael eu pennu'n annibynnol gan bob corff dyfarnu unigol.

3.2 Bydd cyrff dyfarnu'n cyhoeddi eu trefniadau eu hunain yn ymwneud â'r ffïoedd sy'n cael eu codi am wasanaethau Dychwelyd Sgriptiau ac YAG.

3.3 Yn achos gwiriadau clerigol ac adolygu'r marcio ar ôl y canlyniadau, ni chodir y tâl YAG os bydd y graddau pwnc yn cael eu newid.

3.4 Yn achos adolygiadau o'r safoni ar ôl y canlyniadau, ni fydd ffïoedd YAG yn cael eu codi os bydd marciau'r ganolfan yn cael eu hadfer.

3.5 Lle y gwneir cais am sgriptiau fel rhan o'r gwasanaeth Dychwelyd Sgriptiau, bydd y cyrff dyfarnu fel arfer yn anfonebu'r ganolfan ar ôl cyflenwi'r sgriptiau.

4. Ymgeiswyr Preifat

Bydd cyrff dyfarnu'n derbyn cais am ddychwelyd sgriptiau neu ymholiad am ganlyniadau yn uniongyrchol gan ymgeisydd preifat. Fodd bynnag, bydd corff dyfarnu'n gofyn am brawf o hunaniaeth a gall hefyd ofyn am dalu'r ffi priodol cyn prosesu'r cais. Mae gan ymgeiswyr preifat y dewis hefyd o ofyn i'w canolfan gyflwyno'r cais ar eu rhan yn y lle cyntaf. Gall ymgeisydd preifat apelio i'r corff dyfarnu os yw ef/hi'n anfodlon o hyd am ganlyniad ymholiad am ganlyniadau.

Mewn unrhyw gyfathrebiad â chorff dyfarnu, dylai ymgeisydd preifat nodi'n glir ei fod/ei bod yn ymgeisydd preifat. Wrth lenwi ffurflen JCQ EAR CGC, dylai'r ymgeisydd preifat gofnodi ei enw yn y maes 'enw'r ganolfan' a nodi ei gyfeiriad. **Rhaid** i'r ymgeisydd preifat arwyddo'r ffurflen. **Rhaid** i'r ymgeisydd preifat gynnwys y tâl am y gwasanaeth gyda'r ffurflen gais.

Pan fydd ymgeiswyr preifat yn gwneud cais yn syth i gorff dyfarnu, dylid cysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol **cyn** y dyddiad cau perthynol er mwyn gallu cael copi o'r ffurflen JCQ EAR.

Diffiniad Ofqual o ymgeisydd preifat yw: *'Bydd ymgeisydd yn dilyn cwrs astudio'n annibynnol ond yn cofrestru ac yn sefyll arholiad mewn canolfan arholi gymeradwyedig. Rhaid i'r sefydliad dyfarnu dderbyn cyfathrebiadau am ddychwelyd sgriptiau neu ymholiadau am ganlyniadau yn syth gan yr ymgeisydd preifat.'*

Am wybodaeth am Ymholiadau am Ganlyniadau, gweler **Adran 6, tudalen 6.**

Am wybodaeth am Apeliadau, gweler **Adran 7, tudalen 12.**

Am wybodaeth am Ddychwelyd Sgriptiau, **gweler Adran 8, tudalen 14.**

5. Pa wasanaeth ar ôl y canlyniadau sydd ei angen arnaf?



ADRAN DAU: YAG ac Apeliadau

6. Ymholiadau am Ganlyniadau (YAG)

6.1 Cyfrifoldebau'r ganolfan

6.1.1 Gwnewch yn siŵr bod holl aelodau staff y ganolfan yn gwbl ymwybodol o'r broses Ymholiadau am Ganlyniadau. **Rhaid** i ganolfannau roi gwybod i'r ymgeiswyr am y trefniadau Ymholiadau am Ganlyniadau **cyn** iddynt sefyll unrhyw arholiad(au) y mae'r trefniadau hyn yn weithredol ynddynt.

6.2 Cydsyniad yr ymgeisydd

6.2.1 **Rhaid** i ganolfannau gael cydsyniad yr ymgeisydd am **wiriadau clerigol ac adolygiadau o'r marcio ar ôl y canlyniadau,** gan y gallai marciau a **graddau pwnc** yr ymgeiswyr gael eu **gostwng** gyda'r gwasanaethau hyn.

- **Rhaid** hysbysu ymgeiswyr o'r canlyniad posibl hwn a darparu eu cydsyniad gwybodus yn ysgrifenedig cyn cyflwyno unrhyw gais. (Mae **Atodiad A, tudalen 17** yn rhoi awgrym o ffurflen y gall canolfannau ei defnyddio.)
- **Rhaid** i'r ganolfan gadw ffurflenni cydsyniad a'u cadw am chwe mis o leiaf ar ôl canlyniad ymholiad am ganlyniadau neu unrhyw apêl dilynol.
- Mae cais ar-lein yn cynnwys cadarnhad i'r corff dyfarnu bod cydsyniad gwybodus yr ymgeisydd wedi'i gael. (Mae cyflwyno ffurflen gais wedi'i llofnodi'n gwneud yr un peth.)

6.2.2 **Nid** oes angen cydsyniad ymgeisydd am **adolygiad ar ôl y canlyniadau** o'r safoni gan y gellir gostwng marciau ymgeiswyr ond **NI fydd eu graddau pwnc cyhoeddedig yn cael eu gostwng** yn y gyfres dan sylw. Fodd bynnag, dylai canolfannau fod yn ymwybodol y gellid trosglwyddo marc wedi'i ostwng i ardystiad yn y dyfodol. Er enghraifft, os yw marc gwaith cwrs sy'n cyfrannu at ddyfarniad UG yn cael ei ostwng o ganlyniad i adolygiad o'r safoni, bydd y radd UG yn cael ei gwarchod, ond bydd y marc is yn cyfrannu at unrhyw ddyfarniad safon Uwch dilynol.

6.3 Mae'r cyrff dyfarnu'n cynnig y gwasanaethau Ymholiadau am Ganlyniadau canlynol.

6.3.1 **Gwasanaeth 1 (Ail-wiriad clerigol)**

Ail-wiriad yw hwn o'r holl weithdrefnau clerigol sy'n arwain at gyhoeddi canlyniad.

- **Cyflwynwch y cais ar lein.**
- Mae angen cydsyniad yr ymgeisydd **(gweler Adran 6.2)**.
- **Rhaid** i'r corff dyfarnu dderbyn y cais erbyn **20 Medi 2011** ar gyfer **cyfres arholiadau Mehefin 2011**.
- **Y targed ar gyfer cwblhau'r gwaith yw o fewn 20 diwrnod calendr i dderbyn y cais gan y corff dyfarnu.**

Bydd y gwasanaeth hwn yn cynnwys y gwiriadau canlynol:

- bod holl rannau'r sgript wedi cael eu marcio;
- cyfansymu'r marciau;
- cofnodi'r marciau;
- gweithredu unrhyw newidiadau;
- gweithredu trothwyon graddau;
- **os gwneir cais,** llungopi o'r sgript(iau) wedi'i ail-wirio i'r unedau/cydrannau hynny a gynhwyswyd yn y gwasanaeth Dychwelyd Sgriptiau.

Adroddir canlyniad yr ail-wiriad ynghyd â datganiad o'r cyfanswm marciau am bob uned neu gydran a gynhwysir yn yr ymholiad.

Ail-wiriadau clerigol Gwasanaeth 1 yn unig y gellir gofyn amdanynt am brofion gwrthrychol (profion dewis lluosog).

6.3.2 **Gwasanaeth 2 (Adolygiad o'r marcio ar ôl y canlyniadau)**

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig adolygiad o'r marcio gwreiddiol i sicrhau bod y cynllun marcio a gytunwyd wedi'i gymhwyso'n gywir. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael ar gyfer y cydrannau a asesir yn allanol mewn manylebau unedol neu linol.

- **Cyflwynwch y cais ar lein.**
- Mae angen cydsyniad yr ymgeisydd **(gweler Adran 6.2, tudalen 6)**.
- **Rhaid** i'r corff dyfarnu dderbyn y cais erbyn **20 Medi 2011** ar gyfer **cyfres arholiadau Mehefin 2011**.
- **Y targed ar gyfer cwblhau'r gwaith yw o fewn 30 diwrnod calendr i dderbyn y cais gan y corff dyfarnu.**

Bydd y gwasanaeth hwn yn cynnwys:

- yr ail-wiriadau clerigol a nodir yng Ngwasanaeth 1;
- adolygiad o'r marcio fel y disgrifir uchod;
- **os gwneir cais,** llungopi o'r sgript(iau) wedi'i adolygu i'r unedau/cydrannau hynny a gynhwysir yn y gwasanaeth Dychwelyd Sgriptiau. (Os yw natur yr uned/cydran yn golygu na ellir trefnu dychwelyd sgriptiau, megis profion siarad Iaith Dramor Fodern, yna gellir gofyn am adroddiad/copi o'r daflen gofnodi. Bydd cyrff dyfarnu unigol yn cynghori canolfannau sut i wneud cais am adroddiad).

Os yw canolfan yn bryderus am farcio carfan gyfan yn y ganolfan, rhaid i chi gyfeirio at Adran 6.7, tudalen 10.

6.3.3 **Gwasanaeth 2 Blaenoriaethol (Adolygiad o'r marcio ar ôl y canlyniadau)**

Mae'r gwasanaeth hwn fel Gwasanaeth 2, ond bydd ond ar gael os yw'r meini prawf canlynol wedi'u cwrdd:

- mae'r ymholiad am arholiad cymhwyster Lefel 3;
- mae lle'r ymgeisydd mewn addysg bellach/uwch yn dibynnu ar y canlyniad.

Ymdrinnir ag unrhyw geisiadau nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf hyn fel ceisiadau Gwasanaeth 2 arferol.

- **Cyflwynwch y cais ar lein.**
- Mae angen cydsyniad yr ymgeisydd **(gweler Adran 6.2, tudalen 6)**.
- **Rhaid** i'r corff dyfarnu dderbyn y cais erbyn **26 Awst 2011** ar gyfer **cyfres Mehefin 2011**.
- **Y targed ar gyfer cwblhau yw o fewn 18 diwrnod calendr i dderbyn y cais gan y corff dyfarnu.**

6.3.4 **Gwasanaeth 3 (adolygiad o'r safoni ar ôl y canlyniadau)**

Proses yw hon lle bydd y safoni gwreiddiol yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod y meini prawf asesu wedi'u cymhwyso'n deg, yn ddibynadwy ac yn gyson. **Sylwer na fydd y gwasanaeth hwn ar gael os yw marciau gwaith cwrs eich canolfan wedi'u derbyn heb eu newid gan y corff dyfarnu.**

- **Cyflwynwch y cais ar lein.**
- **NID** oes angen cydsyniad ymgeisydd **(gweler Adran 6.2, tudalen 6)**.
- **Rhaid** i'r corff dyfarnu dderbyn y cais erbyn **20 Medi 2011** ar gyfer **cyfres Mehefin 2011**.
- **Y targed ar gyfer cwblhau yw o fewn 40 diwrnod calendr i'r safonwr dderbyn y sampl gwaith gan y ganolfan.**
- **Adolygir y broses o safoni ar y sampl wreiddiol o waith ymgeiswyr.**
- Gall yr adolygiad o'r safoni gynnwys adborth tebyg i'r hyn a ddarparwyd ar ôl y safoni gwreiddiol.
- Os adferir marciau'r ganolfan, **ni** fydd adborth yn cael ei roi.
- **Ni fydd adolygiad o'r marcio'n cael ei ymgymryd ar waith ymgeisydd unigol na gwaith ymgeiswyr nad oeddent yn y sampl wreiddiol.**

Rhaid i ganolfannau, os yw'r sampl gwaith gwreiddiol yn eu meddiant, wneud yn siŵr ei fod yn barod i'w anfon a bydd manylion safonwr i anfon y gwaith ato'n cael ei ddarparu ar gyfer y canolfannau. Ni ddylid anfon gwaith a aseswyd gan y ganolfan pan gyflwynir y cais.

Rhaid i waith a gyflwynir am adolygiad o'r safoni:

- gael ei anfon at y safonwr o fewn **tri diwrnod gwaith - gall methiant i wneud hyn ohirio canlyniad yr ymholiad** *(amherthnasol i ganolfannau CCEA yn achos manylebau 'A');*
- bod yn waith gwreiddiol a gyflwynwyd i'w safoni;
- bod wedi'i gadw dan amodau diogel a heb ei ddychwelyd i'r ymgeiswyr

Ni ellir ymgymryd â'r gwasanaeth hwn ar ddeunydd darfodedig onid oes modd darparu tystiolaeth addas (megis tâp fideo o berfformiadau theatrig). Dylai canolfannau nodi y gall fod angen iddynt gadw copi o'r gwaith os yw ymgeisydd yn bwriadu ail-gyflwyno gwaith ar gyfer y cyfle asesu nesaf.

Cyngor:
Rhaid i ganolfannau sy'n gweithredu fel rhan o gonsortiwm gyflwyno ceisiadau ar ran pob canolfan yn y consortiwm hwnnw. Ni all canolfannau unigol yn y consortiwm ofyn am adolygiad o'r safoni ar eu rhan eu hunain yn unig. Yn achos canolfannau sy'n rhan o gonsortiwm Diploma, rhaid i'r ganolfan a gyflwynodd y cofrestriadau gyflwyno'r cais am ymholiad am ganlyniadau.

6.4 **Cyflwyno ceisiadau**

Rhaid i ganolfannau gyflwyno ceisiadau ar lein trwy safleoedd allrwyd y cyrff dyfarnu.

6.4.1 **Y gwasanaethau YAG cyhoeddedig yw'r unig gyfrwng i drafod pryderon am ganlyniadau.**

6.4.2 Lle nad yw'r ganolfan yn gallu defnyddio safle allrwyd corff dyfarnu, **rhaid** i'r ganolfan ffonio'r corff dyfarnu unigol ar unwaith.

6.4.3 **Ni** ellir derbyn llythyrau o bryder fel ceisiadau am wasanaethau YAG. Dylai canolfannau sydd â phryderon o'r fath ddefnyddio'r gweithdrefnau ymholiadau am ganlyniadau cyhoeddedig. **Ni ddylai canolfannau anfon llythyrau o bryder gyda'u ceisiadau.**

6.4.4 **Rhaid** i bob cais gael ei gyflwyno gan bennaeth y ganolfan, aelod awdurdodedig o staff y ganolfan, neu ymgeisydd preifat. **Ni** fydd cyrff dyfarnu'n derbyn ceisiadau a gyflwynir gan unrhyw unigolion eraill, e.e. gan ymgeiswyr a gofrestrir trwy ganolfan neu gan rieni.

6.4.5 **Rhaid** i ganolfannau fod â gweithdrefn apelio ffurfiol y gellir ei defnyddio os na all canolfannau ac ymgeiswyr, neu eu rhieni neu ofalwyr, gytuno a ddylid cyflwyno ymholiad ai peidio. **Gall cyrff dyfarnu ond cynnal trafodaethau am ymholiadau am ganlyniadau gyda chanolfannau ac ymgeiswyr preifat.**

6.4.6 **Rhaid i ymgeiswyr ddarparu eu cydsyniad gwybodus am wiriadau clerigol ac adolygiadau o'r marcio ar ôl y canlyniadau (gweler Adran 6.2, tudalen 6, ar gydsyniad yr ymgeisydd)**.

6.4.7 **Rhaid** cyflwyno ceisiadau am bynciau unedol o fewn y cyfnod ymholiad yn syth ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau am yr uned. **Ni ellir cyflwyno ceisiadau'n adolygol ar gyfer cyfres flaenorol.**

6.4.8 Gweler yr adran ar gysylltbwyntiau corff dyfarnu (ar du fewn y clawr blaen) am fanylion cyflwyno ceisiadau i'r cyrff dyfarnu.

6.4.9 Gall cyrff dyfarnu wrthod canslo ymholiad ar ôl iddo gael ei gyflwyno.

6.5 **Cydnabyddiaeth**

6.5.1 Cydnabyddir pob cais o fewn **7 diwrnod gwaith.**

6.5.2 Os na dderbynnir cydnabyddiaeth o fewn y cyfnod hwn, yna dylai canolfannau gymryd nad yw'r cais wedi'i dderbyn a chysylltu â'r corff dyfarnu dan sylw **ar unwaith**. Dylai canolfannau hefyd wirio cynnydd y cais yn rheolaidd.

6.5.3 Os na chysylltir tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymholiadau am ganlyniadau, nid oes rhaid i'r corff dyfarnu fynd ymlaen â'r cais.

6.6 **Canlyniad ymholiadau**

6.6.1 Bydd canlyniad pob ymholiad yn cael ei gadarnhau gan y corff dyfarnu priodol.

6.6.2 Os bydd gradd wedi'i newid a thystysgrif wedi'i chyhoeddi'n barod, bydd tystysgrif newydd yn cael ei chyhoeddi sy'n dangos y radd ddiwygiedig, unwaith bydd y ganolfan wedi dychwelyd y dystysgrif wreiddiol i'r corff dyfarnu.

6.6.3 Hysbysir UCAS o unrhyw newidiadau i raddau cymwysterau Lefel 3.

6.6.4 **Os bydd gradd wedi'i gostwng, ni fydd y cais yn cael ei dirymu ac ni fydd y radd wreiddiol, uwch, yn cael ei hadfer.**

6.7 **Os oes gan ganolfan bryderon am farcio carfan yn y ganolfan**

6.7.1 Os oes gan ganolfan bryderon am un o'i charfannau mewn cydran/pwnc, yna:

- dylai'r ganolfan anfon ceisiadau sampl gynrychioliadol, sy'n cynnwys tua 10% o'r garfan, a thalu am hynny;

- **dylai'r sampl fel arfer fod yn isafswm o 8 ymgeisydd**. Yn achos canolfan fawr iawn lle y byddai 10% fel arfer yn fwy nag 20, nid oes angen i ganolfannau gyflwyno mwy nag 20 cais am adolygiad o'r marcio.

Gofynnir i chi nodi NAD yw gweithredu fel hyn yn golygu y bydd corff dyfarnu'n mynd ymlaen i adolygu'r garfan gyfan yn awtomatig.

6.7.2 **Rhaid** i ganolfannau gael cydsyniad yr ymgeisydd am **adolygiadau o'r marcio ar ôl y canlyniadau**, gan y gallai marciau **a graddau pwnc** yr ymgeiswyr **gael eu gostwng.**

- **Rhaid** hysbysu ymgeiswyr o'r canlyniad posibl hwn a darparu eu cydsyniad gwybodus yn ysgrifenedig cyn cyflwyno unrhyw gais. (Mae **Atodiad A, tudalen 17** yn rhoi awgrym o ffurflen y gall canolfannau ei defnyddio.)
- **Rhaid** i'r ganolfan gadw ffurflenni cydsyniad a'u cadw am chwe mis o leiaf ar ôl canlyniad ymholiad am ganlyniadau neu unrhyw apêl dilynol.
- Mae cais ar-lein yn cynnwys cadarnhad i'r corff dyfarnu bod cydsyniad gwybodus yr ymgeisydd wedi'i gael. (Mae cyflwyno ffurflen gais wedi'i llofnodi'n gwneud yr un peth.)

6.7.3 Os bydd pryderon y ganolfan yn parhau, hyd yn oed ar ôl derbyn yr adolygiad o'r canlyniadau marcio:

- dylai godi'r mater â'r corff dyfarnu **o fewn 14 diwrnod i dderbyn canlyniad yr adolygiad perthnasol olaf o ganlyniad marcio**;

- **nid** oes rhaid i ganolfan gyflwyno unrhyw dystiolaeth ategol megis proflenni, ystadegau neu lythyrau. Yr unig beth y mae'n rhaid i'r ganolfan ei wneud yw cyflwyno datganiad o'i bryder i'r corff dyfarnu perthnasol.

6.7.4 Bydd y corff dyfarnu'n adolygu'r achos, ac yn awdurdodi adolygiad marcio estynedig, os yw'n penderfynu bod tueddiad o dan-farcio sylweddol wedi'i ddatgelu.

- **Fel arfer diffinnir 'tan-farcio sylweddol' fel newid o fwy na 5% yng nghyfanswm marciau crai'r papur.**

- Rhaid i 50% o leiaf o'r sampl fod wedi cael ei dan-farcio'n sylweddol i hyn gael ei ystyried yn 'dueddiad'.

- **Ni** ddefnyddir newidiadau i raddau pwnc fel maen prawf i benderfynu a ddylid estyn YAG.

- Ni ellir derbyn tystiolaeth un YAG fel tueddiad.

6.7.5 Os yw corff dyfarnu'n fodlon bod angen cynnal 'adolygiad estynedig o'r marcio', gall ddilyn sawl trywydd gan ddibynnu ar ba bynnag un sy'n briodol ym marn y corff dyfarnu:

- adolygu marcio rhai ymgeiswyr neu rai ymatebion;

- adolygu marcio'r holl ymgeiswyr sy'n weddill yng ngharfan y ganolfan yn yr uned/cydran dan sylw;

- newid ystadegol i farciau crai'r ymgeiswyr sydd ar ôl yn yr uned/cydran dan sylw.

6.7.6 Os yw corff dyfarnu'n cychwyn 'adolygiad marcio estynedig', gellir ond cadarnhau neu godi marciau a graddau pwnc ymgeiswyr; **ni** fydd marciau a graddau pwnc yn cael eu gostwng.

6.7.7 Os yw corff dyfarnu'n cychwyn 'adolygiad marcio estynedig', **ni** chodir tâl ar ganolfannau.

6.7.8 Os yw corff dyfarnu'n cychwyn 'adolygiad marcio estynedig' ni fydd y canolfannau'n cael eu hanfonebu am yr adolygiadau hynny y gofynnwyd amdanynt fel rhan o'r 'sampl gynrychioliadol' (**gweler 6.7.1, tudalen 10**).

6.8 Marciau Graddfa Marciau Unffurf (UMS)

6.8.1 Gellir cael eglurhad o sut y cyfrifir marciau unffurf ar wefannau'r cyrff dyfarnu. Fodd bynnag, gallai'r canlynol fod yn ddefnyddiol:

- Marciau crai yw'r marciau a gofnodir ar sgriptiau gan arholwyr – mae'r mwyafswm marciau crai yn wahanol yn ôl yr uned/cydran;
- Adroddir canlyniadau ymgeiswyr mewn pynciau modylol/unedol fel marciau unffurf – pennir y rhain ar gyfer pob uned/cydran gyda phwysiad cyfartal.
- Cyfrifir marciau unffurf o farciau crai;
- Ni fydd perthynas uniongyrchol amlwg rhwng marciau crai a marciau unffurf o angenrhaid;
- Gall amrywiadau bychan mewn marciau crai arwain at wahaniaethau GMU mwy;
- **Bydd cyrff dyfarnu'n monitro canlyniadau ymholiadau yn nhermau marciau crai nid marciau unffurf.**

D.S. Yn achos unedau Prif Ddysgu, bydd cyrff dyfarnu'n monitro canlyniad ymholiadau am ganlyniadau yn nhermau marciau crai ac nid sgorau pwyntiau.

6.9 Ymgeiswyr yn camymddwyn

6.9.1 Os darganfyddir camymddwyn ar ran ymgeiswyr yn ystod adolygiad o'r marcio ar ôl y canlyniadau neu adolygiad o'r safoni ar ôl y canlyniadau, bydd y sgript/gwaith cwrs yn cael ei brosesu'n unol â dogfen y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau – Polisïau a Gweithdrefnau.* Efallai y bydd ymgeiswyr yn colli rhai neu'r cyfan o'u marciau, a bydd hyn felly'n effeithio ar y graddau a ddyfarnwyd.

7. Apeliadau

7.1 Mae'r broses apeliadau ar gael i ganolfannau neu ymgeiswyr preifat sydd yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn canlyniad ymholiad am ganlyniadau. Dylai canolfannau neu ymgeiswyr preifat gyfeirio at gyhoeddiad y CGC *Canllaw i Brosesau Apelio'r Cyrff Dyfarnu* sydd ar gael ar wefan y CGC (http://www.jcq.org.uk/exams office/appeals/). Mae'r llyfryn hwn yn rhoi manylion llawn prosesau apelio'r cyrff dyfarnu.

7.2 **Gellir ond cyflwyno apeliadau ar ôl i adroddiad am ganlyniad ymholiad am ganlyniadau gael ei gyflwyno i'r ganolfan neu ymgeisydd preifat.** Os yw sgript wreiddiol wedi'i dychwelyd i ganolfan neu ymgeisydd preifat fel rhan o ymholiad am ganlyniadau, bydd ei diogelwch wedi'i beryglu ac **ni** all fod yn destun ymholiad nac apêl.

Ni ellir cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad safoni ar ran ymgeisydd unigol.

7.3 **Rhaid** cyflwyno apêl **i'r corff dyfarnu perthnasol** o fewn **14 diwrnod calendr** i'r hysbysiad o ganlyniad yr ymholiad.

7.4 **Pennaeth y ganolfan neu ymgeisydd preifat yn unig all gyflwyno apêl.**

7.5 **Rhaid** cyflwyno apeliadau'n ysgrifenedig a dylent nodi'n glir sail yr apêl.

7.6 **Rhaid** i sail yr apêl fod yn berthnasol i weithdrefnau'r corff dyfarnu neu sut y cafodd y gweithdrefnau gwasanaethau ar ôl y canlyniadau hynny eu gweithredu.

7.7 **Nid yw apeliadau fel arfer yn cynnwys adolygiadau pellach o waith ymgeiswyr.**

7.8 Bydd y broses apelio yn ystyried a yw gweithdrefnau'r corff dyfarnu'n gyson â chod ymarfer yr awdurdodau rheoleiddio ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n llawn ac yn deg. Cynghorir canolfannau i gyfeirio at adrannau penodol Cod Ymarfer y rheolyddion **cyn** cyflwyno apêl.

7.9 Gallai'r gweithdrefnau a drafodir mewn ymchwiliad gynnwys:

- gosod papurau;
- gweithdrefnau marcio/safoni;
- dyfarnu'r radd;
- gweithdrefnau YAG ac apeliadau.

7.10 Gall cyrff dyfarnu godi tâl am apeliadau. Ad-delir y tâl hwn os yw'r apêl yn llwyddiannus.

7.11 Mae dau gam i broses apeliadau'r corff dyfarnu:

Cam 1 – Y Corff Dyfarnu

- Adolygiad o'r achos gan aelod hŷn o staff y corff dyfarnu nad yw wedi ymwneud o gwbl â'r achos yn flaenorol.
- Ysgrifennir at y ganolfan gyda chanlyniad yr apêl cam 1.
- **Rhaid** i bennaeth y ganolfan neu ymgeisydd preifat wneud unrhyw apêl pellach i gam 2 o fewn **14 diwrnod calendr** i dderbyn canlyniad cam 1 yr apêl.

Cam 2 – Panel y Corff Dyfarnu

- Cyflwynir yr achos i'r Panel Apeliadau a gynullir gan y corff dyfarnu.
- Bydd y Panel Apeliadau yn cynnwys o leiaf dri aelod, gydag un o'r rhain yn aelod annibynnol.
- Nid oes gan y Panel Apeliadau awdurdod i adolygu marciau gwaith ymgeiswyr ymhellach.
- Gall y Panel Apeliadau roi cyfarwyddyd i'r corff dyfarnu ail-ystyried yr achos a gall gynnig argymhellion.
- Ysgrifennir at y ganolfan gyda chanlyniad yr apêl cam 2.
- Darperir adroddiad ar wrandawiad apêl cam 2.

Mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu gwblhau camau 1 a 2 y broses apeliadau a chyflwyno adroddiad am y canlyniad o fewn **50 diwrnod gwaith.** Gofynnir i ganolfannau felly gydweithredu â'r corff dyfarnu er mwyn hwyluso'r broses apeliadau.

7.12 **Apeliadau Allanol i'r Bwrdd Apeliadau Arholiadau (EAB)**

Mae'r EAB yn annibynnol o'r cyrff dyfarnu ac yn bodoli ond fel cyfrwng apelio terfynol. Gall canolfan neu unigolyn preifat ond apelio i'r EAB os ydynt wedi cwblhau apêl Cam 2 ac yn dal i fod yn anfodlon â'r canlyniad.

- Dylid cyflwyno apeliadau allanol i'r Bwrdd Apeliadau Arholiadau (EAB).
- Bydd y Bwrdd Apeliadau Arholiadau ond yn gwrando ar apêl unwaith y bydd camau 1 a 2 proses apeliadau'r corff dyfarnu wedi'u cwblhau.
- Rhaid cyflwyno apeliadau yn ysgrifenedig i'r Bwrdd Apeliadau Arholiadau **o fewn tair wythnos i dderbyn yr adroddiad drafft yn rhoi manylion canlyniad apêl at gorff dyfarnu.**

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â phroses apeliadau'r Bwrdd Apeliadau Arholiadau gan yr EAB: **www.theeab.org.uk** (gellir **ond** ei ddefnyddio ar ôl i gorff dyfarnu wrando ar apeliadau cam 1 a cham 2 a'u cwblhau)

Y Bwrdd Apeliadau Arholiadau
Ofqual
Spring Place
Herald Avenue
Coventry CV5 6UB

Rhif ffôn: 024 766 71848

ADRAN 3: Dychwelyd Sgriptiau

8. Dychwelyd Sgriptiau (DS)

Rhaid i ganolfannau gyflwyno ceisiadau ar-lein trwy safleoedd allrwyd y cyrff dyfarnu.

8.1 **Trefniadau dychwelyd sgriptiau arholiad wedi'u marcio**

8.1.1 Bydd y cyrff dyfarnu yn darparu trefn ddychwelyd sgriptiau wedi'u marcio i ganolfannau arholiad a'u hymgeiswyr i'r arholiadau canlynol:

- **TAG Uwch ac Uwch Gyfrannol**
- **TGAU**
- **Prif Ddysgu**

8.1.2 Mae 'sgript' yn cyfeirio at waith ysgrifenedig ymgeisydd sydd yn ganlyniad cydran a asesir yn allanol. **Nid** yw trefniadau Dychwelyd Sgriptiau'n gymwys yn achos cydrannau a asesir yn fewnol, profion llafar na thapiau sain/fideo.

8.1.3 Mae gwybodaeth ychwanegol i'w chael yn y ddogfen, *Canllawiau – Gwasanaeth Dychwelyd Sgriptiau* yn **Atodiad C, tudalen 19**

8.2 **Amodau'r gwasanaeth Dychwelyd Sgriptiau (DS)**

Bydd cyrff dyfarnu ond yn rhyddhau sgriptiau i ganolfannau o dan yr amodau canlynol:

8.2.1 Athrawon sy'n aelodau o staff yn y ganolfan honno neu o fewn consortiwm o ganolfannau **yn unig** sy'n cael gweld sgriptiau neu dylent gael eu dychwelyd yn syth i'r ymgeiswyr.

8.2.2 Pan fydd staff addysgu'n bwriadu defnyddio sgriptiau i bwrpasau addysgu a dysgu neu fel enghreifftiau i fyfyrwyr eraill, **rhaid** cael cydsyniad ysgrifenedig yr ymgeiswyr dan sylw o flaen llaw. Gellir ceisio'r cydsyniad hwn ond ar ôl i'r ymgeiswyr dderbyn eu canlyniadau am y gyfres arholiadau dan sylw. Mae gan ymgeiswyr sy'n rhoi eu cydsyniad yr hawl i wneud eu sgriptiau'n ddi-enw cyn iddynt gael eu defnyddio.

Atodir ffurflen enghreifftiol i staff y ganolfan ei defnyddio wrth ofyn am gydsyniad ymgeisydd i ofyn am a defnyddio sgriptiau, sef **Atodiad B, tudalen 18**.

Rhaid cadw'r sgriptiau y bydd athrawon yn eu defnyddio yn ddiogel yn y ganolfan. Unwaith nad oes eu hangen mwyach, **rhaid** gwaredu'r sgriptiau hyn yn gyfrinachol. **Ni ddylid** gwaredu'r sgriptiau hyn lai na thri mis ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau neu apêl yn cynnwys y sgriptiau hynny.

8.2.3 Mae gan ymgeiswyr yr hawl i roi cyfarwyddyd i'w canolfannau i beidio â gofyn am ddychwelyd eu sgriptiau.

8.2.4 Gall corff dyfarnu ddal copïau gwreiddiol sgriptiau sy'n destun neu a fu'n destun ymchwiliad camymddwyn. Yn yr amgylchiadau hyn, gellir gofyn am lungopi o'r sgriptiau.

8.2.5 **Unwaith y bydd corff dyfarnu wedi dychwelyd sgript wreiddiol i ganolfan neu ymgeisydd preifat mae ei ddiogelwch wedi'i gyfaddawdu ac ni all fod yn destun ymholiad nac ymchwiliad mwyach.**

8.3 **Hysbysu staff ac ymgeiswyr o'r gwasanaeth DS**

8.3.1. Gwnewch yn siŵr bod pob aelod o staff yn y ganolfan yn gwbl ymwybodol o'r rheolau ar gyfer y trefniadau hyn. **Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r trefniadau dychwelyd sgriptiau cyn iddynt sefyll unrhyw arholiad(au) y mae'r trefniadau hyn yn weithredol ynddynt.

8.4 **Gwneud Cais am gopïau blaenoriaethol o sgriptiau i gefnogi Ymholiadau am Ganlyniadau**

Rhaid i ganolfannau gyflwyno ceisiadau ar-lein trwy safleoedd allrwyd y cyrff dyfarnu.

8.4.1. Bydd penaethiaid canolfannau'n gallu gwneud cais am gopïau blaenoriaethol o **sgriptiau Lefel 3** perthnasol cyn penderfynu cyflwyno ymholiad am ganlyniadau. **Nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael ar gyfer Gwasanaeth 2 Blaenoriaethol ymholiadau am ganlyniadau arholiadau Lefel 3, nac am unrhyw ymholiadau ar Lefelau 1 a 2.**

Cyngor: Os bydd ymgeisydd Lefel 3 yn meddwl cael ymholiad am ganlyniadau Gwasanaeth 2 blaenoriaethol, **ni ddylid** gwneud cais am gopi blaenoriaethol. Dylai canolfannau fynd ymlaen yn syth at ymholiad am ganlyniadau Gwasanaeth 2 Blaenoriaethol, gan mai cyfnod byr yn unig sydd ar gael i'r gwasanaeth hwn.

8.4.2 **Rhaid** cyflwyno ceisiadau i gyrff dyfarnu yn ddim hwyrach na **26 Awst 2011.**

8.4.3 Bydd canolfannau'n derbyn y copïau erbyn **10 Medi 2011** fan bellaf. **Bydd cyrff dyfarnu'n darparu copïau caled neu ddelwedd electronig o'r sgript ar gyfer y canolfannau.**

8.4.4 **Ni** fydd ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau yn cael eu derbyn.

8.4.5 Dylai canolfan sydd am gael copi o'r sgript sydd naill ai wedi bod yn destun ail-wiriad clerigol neu adolygiad o'r marcio gyfeirio at **Adran 6.3, tudalen 6.**

8.5 **Gwneud cais am sgriptiau i gefnogi addysgu a dysgu**

Rhaid i ganolfannau gyflwyno ceisiadau ar-lein trwy safleoedd allrwyd y cyrff dyfarnu.

8.5.1 **Rhaid** cyflwyno ceisiadau i'r cyrff dyfarnu yn ddim hwyrach na **4 Hydref 2011.**

8.5.2 **Ni** fydd ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau yn cael eu derbyn.

8.5.3 Bydd canolfannau'n derbyn eu sgriptiau erbyn **16 Tachwedd 2011** fan bellaf. **Bydd cyrff dyfarnu naill ai'n darparu'r sgript wreiddiol neu ddelwedd electronig o'r sgript i'r canolfannau.**

8.5.4 Unwaith y bydd sgriptiau wedi'u hanfon ar ôl i gais gael ei dderbyn, ni ellir eu dychwelyd i'r corff dyfarnu gyda chais am ad-daliad.

8.6 **Cynlluniau Marcio**

8.6.1 Bydd copi o'r cynllun marcio perthnasol ar gael i ganolfannau, trwy wefan y corff dyfarnu fel arfer ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau.

8.6.2 Er mwyn i'r ymgeiswyr allu dehongli eu marciau, efallai y bydd canolfannau'n ystyried darparu cymorth priodol mewn achosion penodol. **Ni fydd y cyrff dyfarnu'n gallu darparu gwasanaeth o'r fath.**

8.7 **Storio Sgriptiau**

8.7.1 **Rhaid** i ganolfannau drin sgriptiau'n ofalus, gan eu storio'n ddiogel. Athrawon neu staff yn y ganolfan **yn unig** ddylai weld y sgriptiau neu dylid eu dychwelyd yn syth i'r ymgeiswyr dan sylw.

8.8 **Ymyrryd â sgriptiau gwreiddiol (lle maent wedi'u darparu)**

8.8.1 **Rhaid** i ganolfannau hysbysu staff ac ymgeiswyr na ddylid ysgrifennu ar sgriptiau nac amharu â hwy fel arall cyn y dyddiad cynharaf i'w gwaredu - **23 Tachwedd 2011.**

8.8.2 Mae'n debygol y bydd ymgeiswyr, sydd **wedi** ymyrryd â sgriptiau y gall fod angen eu cael yn ôl i'w dychwelyd i'r corff dyfarnu yn gynharach na'r dyddiad hwn, yn cael eu cosbi yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydledig y CGC yn ymwneud â chamymddwyn ymgeiswyr.

8.8.3 I bwrpasau diogelwch, bydd cyrff dyfarnu'n llungopïo sampl o sgriptiau cyn eu dychwelyd i ganolfannau.

8.9 **Gwaredu sgriptiau**

8.9.1 Os yw athrawon wedi defnyddio sgriptiau i bwrpasau addysgu a dysgu ond nad ydynt am eu cadw mwyach, **rhaid** iddynt wneud yn siŵr eu bod yn cael eu gwaredu mewn ffordd gyfrinachol.

8.9.2 Mewn achosion o'r fath, **ni ddylid** gwaredu sgriptiau cyn **23 Tachwedd 2011** rhag ofn y bydd y corff dyfarnu'n gofyn am gael dychwelyd rhai sgriptiau, er enghraifft, i bwrpasau ymchwil.

8.9.3 Ar yr achlysuron annhebygol hynny pryd y bydd un neu fwy o sgriptiau gwreiddiol sy'n rhan o YAG wedi'u hanfon i ganolfan gyda chais grŵp, bydd y corff dyfarnu'n anfon cyfarwyddiadau at y ganolfan.

8.9.4 Dylai canolfannau nodi y bydd cyrff dyfarnu'n dinistrio'r holl sgriptiau sydd dros ben ar ôl i'r rhai sydd eu hangen yn ôl y drefn ddychwelyd, ymholiadau am ganlyniadau, apeliadau ac i bwrpasau ymchwil fod wedi'u tynnu. Bydd sgriptiau'n cael eu gwaredu mewn ffordd gyfrinachol.

ATODIAD A

Cyd-gyngor Cymwysterau

AQA City & Guilds CCEA Edexcel OCR SQA CBAC

YMHOLIADAU AM GANLYNIADAU AC APELIADAU

Ffurflen Cydsyniad yr Ymgeisydd

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Mae'r wybodaeth ganlynol yn egluro beth all ddigwydd yn dilyn ymholiad am ganlyniad arholiad ac unrhyw apêl ar ôl hynny.

Os bydd eich canolfan arholi yn gwneud ymholiad am ganlyniad un o'ch arholiadau ar ôl i'ch gradd yn y pwnc gael ei chyhoeddi, gall tri pheth ddigwydd:

- Bydd eich marc gwreiddiol yn cael ei ostwng, felly gallai eich gradd derfynol fod yn is na'r radd wreiddiol a dderbyniwyd gennych.
- Bydd eich marc gwreiddiol yn cael ei gadarnhau, ac nid oes unrhyw newid i'ch gradd.
- Bydd eich marc gwreiddiol yn cael ei godi, felly gallai eich gradd derfynol fod yn uwch na'r radd wreiddiol a dderbyniwyd gennych.

Er mwyn mynd ymlaen â'r ymholiad am ganlyniadau, rhaid i chi lofnodi'r ffurflen isod. Mae hyn yn dweud wrth bennaeth eich canolfan eich bod wedi deall beth allai ddigwydd, a'ch bod yn cydsynio i'r ymholiad am ganlyniadau gael ei gyflwyno.

Ffurflen Cydsyniad yr Ymgeisydd

Rhif y Ganolfan	Enw'r Ganolfan
Rhif yr Ymgeisydd	Enw'r Ymgeisydd

Manylion yr ymholiad (Corff Dyfarnu, safon y Cymhwyster, teitl y Pwnc, papur/uned)

.....

.....

Yr wyf yn cydsynio i bennaeth fy nghanolfan arholi wneud ymholiad am ganlyniad yr arholiad(au) a restrir uchod. Wrth gydsynio yr wyf yn deall y gallai'r radd derfynol yn y pwnc a ddyfernir i mi ar ôl ymholiad am y canlyniad ac unrhyw apêl ddilynol fod yn is, yn uwch neu'r un peth â'r radd a ddyfarnwyd yn wreiddiol am y pwnc hwn.

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

Dylid cadw'r ffurflen hon yn ffeiliau'r ganolfan am o leiaf 6 mis yn dilyn canlyniad ymholiad am ganlyniadau neu unrhyw apêl a wneir ar ôl hynny.

ATODIAD B

Cyd-gyngor Cymwysterau

AQA City & Guilds CCEA Edexcel OCR SQA CBAC

DYCHWELYD SGRIPTIAU

Ffurflen Cydsyniad yr ymgeisydd i ddefnyddio sgriptiau arholiad

Rhif y Ganolfan	Enw'r Ganolfan
Rhif yr Ymgeisydd	Enw'r Ymgeisydd

Trwy hyn yr wyf yn cydsynio i fy sgript(iau) o'r arholiadau canlynol gael ei/u defnyddio gan athrawon yn ..... (enw'r ganolfan) fel enghreifftiau wrth addysgu myfyrwyr eraill. Mae/nid yw'r* cydsyniad hwn yn amodol ar dynnu fy enw ac unrhyw fodd arall o adnabod o'r sgript(iau). Mae'r cydsyniad hwn yn berthnasol i'r holl arholiadau a safwyd gennyf yn y flwyddyn academaidd hon/yr arholiadau neu bapurau arholiad a restrir isod*.

(*Dilëer fel y bo'n briodol.)

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

Dylid cadw'r ffurflen hon yn ffeiliau'r ganolfan.

Canllaw i'r gwasanaeth Dychwelyd Sgriptiau

Sut caiff sgriptiau eu marcio?

Bydd sgriptiau naill ai'n cael eu marcio yn y dull traddodiadol neu ar-sgrin.

Pan fydd sgriptiau'n cael eu marcio yn y dull traddodiadol, byddant yn cael eu casglu o'r canolfannau, gan ddefnyddio system ddiogel y gellir ei holrhain, a'u danfon i'r arholwyr unigol a fydd yn marcio'r copi caled ac yn dychwelyd marciau a'r sgriptiau i'r corff dyfarnu i'w prosesu.

Er mwyn marcio ar-sgrin, bydd sgriptiau'n cael eu casglu o'r canolfannau, gan ddefnyddio system ddiogel y gellir ei holrhain, ac yn cael eu danfon i ganolfan sganio lle byddant yn cael eu sganio ar system gyfrifiadur er mwyn cynhyrchu delwedd o atebion yr ymgeisydd. Bydd y delweddau wedi'u sganio o'r sgript wedyn yn cael eu gwahanu'n 'glipiau' fesul cwestiwn (neu rannau o gwestiynau) yn ôl y broses farcio sy'n briodol. Gellir prosesu'r ffeiliau hyn gan gyfrifiadur a'u trosglwyddo ar y rhyngrwyd.

Mae trosglwyddiad ffeiliau electronig dros y rhyngrwyd wedi'i warchod gan y dechnoleg amgryptio ddiweddaraf, sy'n debyg i'r hyn a ddefnyddir mewn systemau bancio modern.

Bydd y dull gorau ar gyfer pob 'clip' yn cael ei ddethol ar ôl i'r cwestiynau arholiad gael eu gosod a'r dull o farcio'n cael ei ddyrannu'n unol â hyn.

Bydd cwestiynau sydd ag atebion cymhleth yn cael eu dyrannu i arholwr arbenigol fydd yn arbenigwr pwnc; gall marciwr cyffredinol farcio cwestiynau gydag un ateb cywir gan ddefnyddio cynllun marcio caeth; bydd modd marcio cwestiynau sy'n gofyn am atebion un llythyren, un gair neu dicio blwch gyda chyfrifiadur.

Waeth pa ddull marcio sy'n cael ei ddefnyddio, bydd pob sgript yn mynd trwy nifer o weithdrefnau sicrhau ansawdd. Caiff y gweithdrefnau hyn eu rheoleiddio gan God Ymarfer TGAU, TAG, Prif Ddysgu a Phroject y bydd y rheolyddion yn ei gyhoeddi ac y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu ei ddilyn.

Caiff pob sgript ei farcio gan arholwr fydd yn cael ei ddewis ar sail ei g/chymwysterau a phrofiad. Bydd pob arholwr yn derbyn hyfforddiant ar sut i weithredu'r cynllun marcio. Yn ystod y cyfnod marcio bydd gwaith pob arholwr yn cael ei wirio o leiaf ddwy waith gan arholwr hŷn. Gall y broses fonitro hon olygu bod rhai marciau ar sgriptiau'n cael eu newid. Bydd pob tudalen ar sgript yn dangos tystiolaeth ei bod wedi'i gweld a'i marcio.

Yn achos marcio ar-sgrin, bydd safon yr arholwyr a'r marcwyr yn cael ei wirio trwy ddefnyddio eitemau prawf sydd wedi'u marcio ymlaen llaw bob tro bydd y marcwyr yn mewngofnodi ar y system ac yn rheolaidd yn ystod eu gwaith.

Bydd arholwyr a marcwyr yn darllen y cwestiynau neu'r eitemau ar-sgrin ac yn penderfynu ar y marciau. Neu bydd y cyfrifiadur yn marcio atebion cywir neu anghywir.

Cynllun Marcio

Yn achos pob cydran ysgrifenedig, bydd copi o'r cynllun marcio ar gael trwy wefan y corff dyfarnu ar ôl i ganlyniadau'r gyfres dan sylw gael eu cyhoeddi. Bydd cyfeirio at y cynllun marcio'n dangos sut mae'r corff dyfarnu wedi cyrraedd y marc terfynol ar gyfer pob sgript.

Defnyddio inc lliw ar sgriptiau

Mae Arholwyr Cynorthwyol yn defnyddio inc coch. Mae Arholwyr Hŷn yn defnyddio inc lliw gwahanol. Mae hyn yn helpu corff dyfarnu i fonitro'r broses farcio. Bydd rhai sgriptiau felly wedi'u marcio mewn inc o fwy nag un lliw. Gallai'r gwiriad clerigol o sgriptiau (gweler isod) fod mewn trydydd lliw, neu mewn pensil.
Os byddwch yn gofyn am gopïau o sgriptiau, ni fyddwch yn gallu dweud y gwahaniaeth rhwng y gwahanol farcio.

Yn achos sgriptiau sydd wedi'u marcio ar-sgrin, bydd copi o'r ddelwedd wedi'i sganio'n cael ei ddarparu i'r canolfannau. Mewn rhai achosion, bydd trawsgrifiad yn cael ei anfon gyda'r ddelwedd wedi'i sganio sy'n dangos y marciau a ddyfarnwyd am bob eitem cwestiwn a'r cyfanswm marciau am y papur.

Sylwadau ar sgriptiau

Lle bo'n briodol gwneud hynny, efallai y bydd arholwyr yn ysgrifennu sylwadau ar sgriptiau'n nodi sut y mae ymgeiswyr wedi cwrdd â gofynion y cynllun marcio. Gofynnir i arholwyr gyfeirio sgriptiau at arholwr hŷn os ydynt yn amau sut i weithredu'r cynllun marcio. Efallai y bydd nodyn i'r perwyl hwn wedi'i gynnwys ar y sgript.

Nid yw sgriptiau sydd wedi'u marcio ar-sgrin yn dangos unrhyw sylwadau pan fyddant yn cael eu dychwelyd i'r canolfannau.

Gwiriadau clerigol

Caiff y sgriptiau eu gwirio i sicrhau nad oes unrhyw wallau o ran y cyfansymu a bod y sgript i gyd wedi'i marcio. Bydd newidiadau i'r cyfanswm marciau'n cael eu dangos pan fydd gwallau o'r fath wedi'u canfod.

Pan fydd sgriptiau'n cael eu marcio ar-sgrin, nid oes angen gwneud unrhyw wirio clerigol gan fod y cyfrifiadur yn cyfansymu'r marciau am gwestiynau ac eitemau.

Marciau am Ansawdd y Cyfathrebu Ysgrifenedig

Mae'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer i farciau gael eu dyfarnu am ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn y rhan fwyaf o bynciau. Bydd marciau o'r fath naill ai'n cael eu cofnodi ar wahân ar sgriptiau neu'n cael eu dangos yn glir ar y cynllun marcio.

Anodiadau eraill ar sgriptiau

Gall rhai sgriptiau gynnwys arwyddion pellach o farcio, gwirio neu gynnal prosesau eraill, e.e. arholwyr wedi'u harwyddo, rhifau arholwyr neu stampiau inc megis "BYSELLWYD/KEYED IN". Bydd methiant i ddilyn y cyfarwyddiadau (e.e. ateb gormod o gwestiynau) fel arfer yn cael ei nodi felly.

Newidiadau arholwr

Bydd monitro arholwyr gan arholwyr hŷn yn penderfynu a yw marcio pob arholwr yn gyson, ac yn nodi a oes unrhyw haelioni neu lymder i'r marcio. Pan fydd tystiolaeth o haelioni neu lymder, efallai y bydd marciau'n cael eu newid. Ni fydd y newidiadau hyn yn cael eu dangos ar y sgriptiau. O ganlyniad, efallai na fydd y marc ar y sgript yr un peth â'r marc terfynol sydd wedi'i ddyfarnu am y papur sydd fel arfer yn cael ei adrodd yn ôl i'r ysgol neu'r coleg gyda'r canlyniadau. Y marc sy'n cael ei ddal yng nghronfa ddata'r corff dyfarnu yw'r un sy'n mynd tuag at ganlyniad cyffredinol yr ymgeisydd.

Pan fydd sgriptiau'n cael eu marcio ar-sgrin, bydd y marcio'n cael ei fonitro gan arholwr hŷn a'i newid ar y pryd.

Ystyriaeth Arbennig

Pan fydd ysgol neu goleg wedi gofyn am roi ystyriaeth arbennig i ymgeisydd, gall y corff dyfarnu ganiatáu marc neu farciau ychwanegol. Ni fydd newid o'r fath yn cael ei ddangos ar y sgript ac, o ganlyniad, efallai na fydd y marc ar y sgript yr un peth â'r marc am y papur sy'n cael ei adrodd gyda'r canlyniadau. Y marc sy'n cael ei ddal yng nghronfa ddata'r corff dyfarnu yw'r un sy'n mynd tuag at ganlyniad cyffredinol yr ymgeisydd.

Pwysiad Marciau Papur

Yn achos papurau unigol gellir graddoli'r marc cyfanswm sy'n cael ei ddangos ar y sgript. Er enghraifft, efallai y bydd papur yn cael ei farcio allan o 100, ond fod ganddo 25% o'r cyfanswm marciau am y pwnc. Efallai y bydd y marc allan o 100 wedi'i raddoli i adlewyrchu cyfraniad y papur at farc cyfanswm y pwnc. Bydd marc terfynol pob papur, sy'n cael ei ddefnyddio gan y corff dyfarnu i gyfrifo cyfanswm marciau'r ymgeisydd am y pwnc, fel arfer wedi'i ddarparu i'r ysgol neu goleg gyda'r canlyniadau.

Graddfa Marciau Unffurf

Caiff marciau am bapurau cwestiynau sy'n rhan o gynllun asesu unedol eu hadrodd yn nhermau graddfa marciau unffurf. Bydd y marc sy'n cael ei adrodd yn ôl y raddfa marciau unffurf yn wahanol i'r marc fydd yn cael ei ddangos ar sgript yr ymgeisydd. Mae mwy o fanylion am ddefnyddio marciau GMU ar gael ar wefannau'r cyrff dyfarnu.

Ymholiadau

Ni all y cyrff dyfarnu gynnal unrhyw ohebiaeth ag ymgeiswyr na'u rhieni/gwarcheidwaid ynglŷn â sgriptiau arholiad wedi'u marcio. Mae'r cyrff dyfarnu'n gweithredu gwasanaeth ymholiadau am ganlyniadau er mwyn adolygu marcio a gwirio sgriptiau ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau. Rhaid i unrhyw ymholiadau fod yn rhan o'r broses ymholiad ffurfiol am ganlyniadau hon a rhaid eu cyflwyno gan y ganolfan y bydd ganddi fanylion llawn y gwasanaethau sydd ar gael a'r gost.

ATODIAD Ch

Cwestiynau Cyffredin

1. Pa wasanaeth sydd ei angen arnaf?

1.1 **Yr wyf ond am weld sgript yr ymgeisydd, nid wyf am gael adolygiad o'r marcio**
Dylech ofyn am **sgriptiau i gefnogi addysgu a dysgu. (Gweler Adran 8.5, tudalen 15, am fanylion.)**

1.2 **Yr wyf am weld sgript er mwyn penderfynu a wyf am gael adolygu ei farcio**
Dylech ofyn am **gopi blaenoriaethol o'r sgript.** Ni allwch wneud hyn ar gyfer cymwysterau Lefel 1 a 2: gallwch ond gwneud hyn ar gyfer cymwysterau Lefel 3. **Os ydych am gael yr opsiwn hwn, gweler Adran 8.4, tudalen 15, am fanylion.**

1.3 **Mae lle mewn Addysg Uwch yn y fantol – pa wasanaeth ddylwn ei ddefnyddio?**
Dylech ofyn am **YAG Gwasanaeth 2 Blaenoriaethol, gweler adran 6.3.3, Tudalen 7.** Dylech ddefnyddio'r gwasanaeth hwn gan mai ond tan 26 Awst 2011 sydd gennych i wneud cais am YAG Gwasanaeth 2 Blaenoriaethol. **Noder na allwch ofyn am gopi blaenoriaethol o'r sgript.**

1.4 **Os byddaf yn gofyn am ddychwelyd sgript (nid copi) ydw i'n cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniad am gael adolygiad marcio ai peidio?**
Na. Yn gyntaf, nid yw cyrff dyfarnu'n anfon sgriptiau allan i gefnogi addysgu a dysgu tan i'r dyddiad cau ymholiadau am ganlyniadau fynd heibio. Yn ail, pan fydd sgript wreiddiol ym meddiant canolfan, mae ei diogelwch wedi'i gyfaddawdu ac ni ellir wedyn ei derbyn am adolygiad marcio.

1.5 **Yr wyf am weld sgript ar ôl i'r marcio gwreiddiol gael ei adolygu.**
Dylech ofyn am Wasanaeth 2 (adolygiad o'r marcio) neu Wasanaeth 2 Blaenoriaethol (adolygiad blaenoriaethol o'r marcio) a gwneud yn siŵr eich bod yn **gofyn am gopi** wrth gyflwyno eich ymholiad. Bydd y sgript yn cael ei hadolygu a'r copi'n cael ei anfon atoch pan fydd y gwasanaeth wedi'i gwblhau.
Argymhellir yn gryf nad ydych yn gofyn am adolygiad o'r marcio, ac yna'n gofyn ar wahân am ddychwelyd sgript i gefnogi addysgu a dysgu.

2. Cysylltwch â'r corff dyfarnu os gwnaed y canlynol:

2.1 **Gofynnwyd am Wasanaeth 2 (adolygiad o'r marcio) ond ni ofynnwyd am gopi o'r sgript wedi'i adolygu ar y pryd**

2.2 **Gofynnwyd am ddychwelyd sgript er mwyn addysgu a dysgu, ond Gwasanaeth 2 (adolygiad o'r marcio) oedd ei angen mewn gwirionedd**